

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

**Rhif: 13**

Rhif y Cais: C08A/0617/15/AM  
Dyddiad Cofrestru: 09/10/2008  
Math y Cais: AMLINELLOL  
Cymuned: LLANBERIS  
Ward: LLANBERIS

Bwriad: CAIS AMLINELLOL I GODI Tŷ UNLLAWR  
Lleoliad: LLAIN O DIR YN GROESLON, GLYNRHONWY, LLANBERIS, CAERNARFON,  
GWYNEDD, LL55 4EL

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** Gwrthod ar sail polisiâu lleol a chenedlaethol.

**Disgrifiad:**


Cais yw hwn am ganiatâd cynllunio amlinellol i adeiladu tŷ unllawr ar ddarn o dir agored yn Glynrhonwy, Llanberis.

Mae'r ymgeisydd yn gweithio fel contractwr ac mae'n cadw amryw o beiriannau yn agos at safle'r datblygiad arfaethedig hwn ac mae'r cais am ganiatâd i adeiladu tŷ yma er mwyn diogelu'r safle.

Ar ran o'r safle mae adfeilion hen adeiladwaith, tra mae gweddill y safle yn dir anwastad a thybir ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion amaethyddol.

Gellir cyrraedd y safle ar hyd trac preifat oddi ar briffordd yr A486 i Lanberis.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON



C08A/0617/15/AM

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

### **Polisiau Perthnasol:**

### **Cynllun Lleol Arfon Wledig:**

Datgan polisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig na chaniateir tai newydd tu allan i ffiniau'r pentrefi fel y'i diffinnir ar y map cynigion, oni ellir dangos hyd foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod y tŷ yn angenrheidiol ar gyfer cartrefu gweithiwr amaethyddol neu weithiwr coedwigaeth llawn amser sydd yn gorfod byw yn y fan dan sylw yn hytrach na byw mewn anheddiad cyfagos.

### **Cynllun Fframwaith Gwynedd:**

Mae polisi A6 Cynllun Fframwaith Gwynedd yn cyfyngu tai newydd yng nghefn gwlad agored ond lle bydd angen cartrefu gweithiwr fferm neu goedwigaeth sy'n gorfod byw yn y fan a'r lle yn hytrach nag mewn anheddiad cyfagos.

Datgan polisi D29 Cynllun Fframwaith Gwynedd y bydd yn rhaid lleoli datblygiadau newydd yn addas yn y drefwedd/tirwedd.

### **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig 2009) :**

Datgan Polisi C1 – lleoli datblygiad newydd: Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf adeiledig Pentrefi Gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad (h.y. y tu allan i ffiniau datblygu a thu allan i ffurf datblygedig Pentrefi Gwledig) ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun, er enghraifft:

1. datblygiad sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth neu goedwigaeth, gan gynnwys tai gweithwyr amaethyddol, coedwigaeth neu ddiwydiant gwledig arall sy'n seiliedig ar ddefnyddio'r tir neu i unigolion sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i'r sector amaethyddol neu goedwigaeth o fewn y Sir, sy'n gorfod byw lle maent yn gweithio neu'n agos at eu gweithle.
2. tai fforddiadwy ar safleoedd addas sy'n union wrth ymyl ffiniau datblygu.
3. dymchwel ac adeiladu anheddau
4. addasu ac ymestyn anheddau
5. mentrau cyflogaeth sy'n hwyluso arallgyfeirio yn yr economi wledig
6. gweithfeydd cloddio am fwynau
7. datblygiad cysylltiedig â thwristiaeth wledig, mentrau chwaraeon a hamdden awyr agored
8. cynhyrchu ynni adnewyddol sy'n harneisio adnoddau naturiol
9. datblygiad cysylltiedig â darparwyr isadeiledd statudol
10. mynwentydd

Rheolir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yn llym yng nghefn gwlad a dylid sicrhau perthynas weledol dda rhyngddynt a datblygiadau presennol lle bynnag y bo modd.

Datgan polisi CH7 – tai newydd yng nghefn gwlad, y gwrthodir cynigion i adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad os na ellir cydymffurfio â'r holl feini prawf canlynol:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

1. bod angen y tŷ newydd i gartrefu:
  - (a) gweithiwr llawn amser neu un sy'n cael ei gyflogi'n bennaf mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth neu ddiwydiant gweledig arall sy'n seiliedig ar ddefnyddio'r tir, neu
  - (b) rhywun sy'n ennill ei fywoliaeth trwy weithgaredd llawn amser sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i'r sector amaethyddol neu goedwigaeth o fewn y Sir;
2. bod y sawl sydd angen y tŷ yn gorfod byw ar y safle a bod y tŷ yn angenrheidiol i reoli a rhedeg gweithgareddau presennol yr uned neu'r fenter amaethyddol neu goedwigaeth, neu yn achos 1b) bod natur y busnes yn golygu ei bod yn angenrheidiol byw ar safle o'r fath;
3. bod y busnes yn un sydd wedi ei hen sefydlu;
4. nad oes tŷ presennol ar yr uned, neu'n agos y gellid ei ddefnyddio, neu adeiladau addas gerllaw y gellid eu haddasu'n dŷ;
5. yn achos 1a) bod y safle mewn lleoliad addas i ddiwallu'r angen gweithredol a enwir a'i fod yn priodi'n dda â'r adeiladau presennol ar yr uned ac yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio ac, yn achos 1a) ac 1b), bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod y lleoliad yn addas a bod y cyfiawnhad dros y lleoliad yn dderbyniol;
6. bod math y tŷ sy'n cael ei gynnig a'i faint yn gyson â'r hyn mae'r busnes neu'r fenter bresennol ei angen ac y gellir ei gynnal;
7. bod trefniadau boddhaol ar gael i gyfyngu meddiannaeth y tŷ i rai sy'n ennill eu bywoliaeth yn llawn amser neu sy'n cael eu cyflogi'n bennaf o 1a) neu 1b).

Pan ganiateir datblygiad, defnyddir amod cynllunio i reoli Hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn sicrhau na fyddai estyniad yn cael ei adeiladu neu newid yn cael ei wneud a fyddai'n codi gwerth yr eiddo tu hwnt i gyrraedd person sy'n ennill ei fywoliaeth yn llawn amser neu'n bennaf o'r gwaith a amlinellir yn 1a) neu 1b).

Dylid nodi y gellir rhoi cryn bwysau i'r polisi penodol hwn gan fod yr Arolygwr Cynllunio i'r Ymchwiliad Cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Unedol wedi cefnogi safiad Cyngor Gwynedd ynglŷn ag amcanion a nodau Polisi CH7.

#### **Polisiâu Cenedlaethol:**

Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog – 1 "Tai", Medi 2006 (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Datgan paragraff 9.3.6 y dylid arfer rheolaeth lem dros ddatblygiadau 'newydd' yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau sefydledig. Yr unig eithriad fyddai i ddarparu tai lle maent yn hanfodol i ganiatáu i weithiwr amaethyddol fyw yn eu man gwaith, neu'n agos at eu man gwaith, lle nad oes llety ar gael gerllaw.

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 6 – Datblygu Amaethyddol a Gwledig

Datgan paragraff 40 : Un o'r amgylchiadau prin lle y gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl anghysbell yng nghefn gwlad yw pan fo angen llety i alluogi gweithwyr fferm neu goedwigaeth i fyw yn eu gweithle, neu'n agos ato. Bydd barnu a yw hyn yn hanfodol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar anghenion y fenter fferm neu goedwigaeth o dan sylw yn hytrach nag ar ddewis nac amgylchiadau personol unrhyw un o'r unigolion o dan sylw. Dylai ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer anheddau amaethyddol neu goedwigaeth newydd gael eu harchwilio'n drylwyr gan yr awdurdod cynllunio lleol, gyda'r nod o ddod o

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

hyd i ymdrechion i gamddefnyddio'r consesiwn y mae'r system gynllunio'n ei wneud ar gyfer anheddau o'r fath yng nghefn gwlad.

### Hanes Cynllunio Perthnasol:

Nid oes hanes cynllunio yn ymwneud â'r safle hwn.

### Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad

Uned Drafnidiaeth: Dim sylwadau

Asiantaeth yr Amgylchedd: Sylwadau

Dŵr Cymru: Sylwadau

Adain Iechyd yr Amgylchedd: Heb eu derbyn

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Gofynnodd yr aelod lleol i'r cais hwn gael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio Ardal Arfon am benderfyniad yn hytrach nac iddo gael ei ymdrin dan y system ddirprwyo hawliau.

### Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol Eraill:

Lleolir safle'r cais gryn bellter oddi wrth y ffin ddatblygu agosaf., yn yr achos hwn, ffin datblygu pentref Llanberis fel a ddangosir yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig 2008).

Datgan Adran (38 (5) Deddf Cynllunio a Iawndal, 2005 (gynt, Adran 54A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) “ *regard is to be made of the development plan for the purpose of any determination under the Planning Acts and the determination must be made in accordance with the plan unless material considerations indicated otherwise*”.

Nodir bod yr ymgeisydd yn gweithio fel contractwr, yn ymgymryd â gwaith i wahanol bobl gan gynnwys ffermwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos o'r wybodaeth a gyflwynwyd bod yr ymgeisydd yn ffermio'r 20 acer o dir sy'n ffurfio rhan o safle'r cais. Er y cyflwynwyd datganiadau ariannol ynglŷn â busnes yr ymgeisydd sy'n dangos fod y busnes yn ffyniannus, ni chyflwynwyd digon o fanylion yn datgan pa ganran o'r gwaith hwn sy'n darparu gwasanaeth hanfodol ar gyfer ffermwyr.

Nodir hefyd na phrofwyd bod gwir angen lleoli tŷ newydd gyfocrog â safle'r busnes ar y safle hwn ac ni phrofwyd ychwaith bod angen penodol i leoli'r busnes yn y safle hwn yn hytrach nag mewn uned ddiwydiannol sefydledig.

Er y bu digwyddiadau o ladrata a difrodiyn y gorffennol, gellid cymryd camau priodol er mwyn diogelu'r safle trwy osod ffensys gwell, camerâu diogewlch ac ati.

### Casgliadau:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

Gan ystyried yr uchod, ystyrir na chyflwynwyd ac ni nodwyd digon o gyfiawnhad i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ganiatáu'r bwriad hwn fel eithriad i bolisiau cynllunio sydd wedi eu hen sefydlu ynglŷn â chodi tai newydd yng nghefn gwlad.

### **Argymhelliad:**

Gwrthod ar sail polisiau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â chodi tai newydd yng nghefn gwlad agored.

---

### Rhesymau am wrthod

1. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y bwriad yn groes i bolisi 9Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig, sydd yn datgan na chaniateir tai newydd y tu allan i ffiniau datblygu a ddiffinnir ar y map cynigion, oni all yr ymgeisydd fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod yr annedd yn hanfodol i gartrefu gweithiwr llawn amser mewn amaethyddiaeth neu goedwigaeth, sy'n gorfod byw yn y fan a'r lle yn hytrach nag mewn pentref cyfagos.
2. Mae'r bwriad yn groes i bolisi A6 Cynllun Fframwaith Gwynedd, sydd yn cyfyngu ar dai newydd yng nghefn gwlad lle maent yn hanfodol ar gyfer cartrefu gweithiwr fferm neu goedwigaeth sy'n gorfod byw yn y fan a'r lle yn hytrach nag mewn pentref cyfagos.
3. Mae'r bwriad yn groes i bolisi D29 Cynllun Fframwaith Gwynedd, sydd yn datgan y dylai datblygiadau newydd gael eu lleoli'n addas yn y drefwedd neu'r tirwedd
4. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod y bwriad yn groes i bolisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2008) sydd yn datgan y dylid gwrthod cynigion i adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad os na ellir cydymffurfio gydag amrywiol feini prawf gan gynnwys angen tŷ i weithwyr amaethyddol neu goedwigaeth llawn amser.
5. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod y bwriad yn groes i bolisi C1 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2008) sydd yn datgan:

Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a Phentrefi a ffurf datblygedig Pentrefi Gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad (h.y. y tu allan i ffiniau datblygu a thu allan i ffurf datblygedig Pentrefi Gwledig) ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun er enghraifft:-

1. datblygiad sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth neu goedwigaeth, gan gynnwys tai i weithwyr amaethyddol, coedwigaeth neu ddiwydiant gwledig arall sy'n seiliedig ar ddefnyddio'r tir neu i unigolion sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i'r sector amaethyddol neu goedwigaeth o fewn y Sir, sy'n gorfod byw lle meant yn gweithio neu'n agos at eu gweithle.
2. tai fforddiadwy ar safleoedd addas sy'n union wrth ymyl ffiniau datblygu
3. dymchwel ac ailadeiladu anheddau
4. addasu ac ymestyn anheddau
5. mentrau cyflogaeth sy'n hwyluso arallgyfeirio yn yr economi wledig

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 04/03/2009
PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH)	ARDAL ARFON

6. gweithfeydd cloddio am fwynau
7. datblygiad cysylltiedig a thwristiaeth wledig, mentrau chwaraeon a hamdden awyr agored
8. cynhyrchu ynni adnewyddol sy'n harneisio adnoddau naturiol
9. datblygiad cysylltiedig â darparwyr isadeiledd statudol
10. mynwentydd

Rheolir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn llym a dylid sicrhau perthynas weledol dda rhyngddynt a datblygiadau presennol lle bynnag y bo modd.

6. Ystyrir bod y datblygiad yn groes i Baragraff 9.3.6 Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog - 1/2006 'Tai' oherwydd mae yn datgan y dylid arfer rheolaeth lem dros ddatblygiadau 'newydd' yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau sefydledig. Yr unig eithriad fyddai i ddarparu tai lle maent yn hanfodol i ganiatáu i weithwyr amaethyddol fyw yn eu man gwaith, neu'n agos at eu man gwaith, lle nad oes llety ar gael gerllaw.
7. Ystyrir bod y datblygiad yn groes i baragraff 40 Nodyn Cyngor Technegol 6 – Datblygu Amaethyddol a Gwledig sydd yn datgan:

“Un o'r amgylchiadau prin lle y gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl anghysbell yng nghefn gwlad yw pan fo angen llety i alluogi gweithwyr fferm neu goedwigaeth i fyw yn eu gweithle, neu'n agos ato. Bydd barnu a yw hyn yn hanfodol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar anghenion y fenter fferm neu goedwigaeth o dan sylw yn hytrach nag ar ddewis nac amgylchiadau personol unrhyw un o'r unigolion o dan sylw. Dylai ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer anheddau amaethyddol neu goedwigaeth newydd gael eu harchwilio'n drylwyr gan yr awdurdod cynllunio lleol, gyda'r nod o ddod o hyd i ymdrechion i gamddefnyddio'r consesiwn y mae'r system gynllunio'n ei wneud ar gyfer anheddau o'r fath yng nghefn gwlad.”

1. Wrth ystyried y cais yma, roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y polisiau a restrir isod yn berthnasol: @@ Cynllun Fframwaith Gwynedd, @@ Cynllun Lleol Arfon Wledig, @@ Cynllun Lleol Afon Menai, @@ Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2008).

---

<b>ADRODDIAD PWYLLGOR</b>	
<b>PWYLLGOR</b>	PWYLLGOR CYNLLUNIO CANOLOG
<b>DYDDIAD</b>	26 MAWRTH 2009
<b>TEITL</b>	CAIS AMLINELLOL I GODI Tŷ UNLLAWR
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	YSTYRIED ARGYMHELLIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO ARFON I ROI CANIATÂD CYNLLUNIO YN GROES I ARGYMHELLIAD Y SWYDDOG I WRTHOD Y CAIS AR SAIL POLISI.
<b>ADRODDIAD GAN</b>	PENNAETH GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH
<b>GWEITHREDU</b>	DERBYN YR ARGYMHELLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Dyma gais cynllunio amlinellol i adeiladu tŷ newydd ar dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis.
- 1.2 Cyflwynwyd y cais hwn i Bwyllgor Cynllunio Arfon ar 4 Mawrth 2009 gydag argymhelliad i wrthod ar sail polisi gan y byddai'r bwriad yn arwain at annedd newydd mewn cefn gwlad agored heb unrhyw gyfiawnhad amaethyddol.
- 1.3 Atodir, er gwybodaeth, gopïau o'm adroddiad gwreiddiol ar y cais (gweler Atodiad A), ynghyd â llythyrau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a'i asiant i gefnogi'r cais hwn.
- 1.4 Yn ogystal, er gwybodaeth, gweler cofnodion y Pwyllgor sy'n ymwneud â'r cais (gweler Atodiad B).
- 1.5 Er mwyn gosod safle'r cais yng nghyd-destun Cynllun Anheddiad Llanberis, gweler hefyd yn Atodiad C ffin yr anheddiad fel y'i diffinnir yn y CDU Drafft.
- 1.6 Mae hyn yn dangos yn glir fod y safle arfaethedig gryn bellter oddi wrth ffin anheddiad Llanberis a'i fod mewn cefn gwlad agored.

## 2. CANLLAWIAU CENEDLAETHOL A PHOLISIŌAU CYNLLUN DATBLYGU

- 2.1 Datgan paragraff 9.3.6 Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006:-

“Dylid arfer rheolaeth lem dros adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau sefydledig. Nid yw'r ffaith na fyddai un tŷ ar y safle penodol yn oramlwg yn ddadl dda ynddi'i hun dros roi caniatâd; gellid ailadrodd hynny'n rhy aml, er niwed cyffredinol i gymeriad yr ardal.”

- 2.2 Datgan paragraff 9.3.7 Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006:-

“Dylid ystyried y canlynol, yn benodol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio am anheddau amaethyddol a choedwigaeth.

- Prawf swyddogaethol i ddarganfod a oes angen, er mwyn i'r busnes weithredu'n briodol (o ran gofynion cyfredol y busnes a'i ofynion tebygol yn y dyfodol), i un neu ragor o weithwyr fod ar gael wrth law bron bob amser; a

- Prawf ariannol i ddangos bod y busnes ffermio yn hyfyw'n economaidd – oherwydd onid ydyw, ni ellir cyfiawnhau llety parhaol newydd ar sail amaethyddol – ac i roi tystiolaeth am faint yr annedd fyddai'n briodol i'r uned.”

2.3 Datgan paragraff 40 Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 6 (Cymru) – ‘Datblygu Amaethyddol a Gwledig’:-

“Un o'r amgylchiadau prin lle gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl anghysbell yng nghefn gwlad yw pan fo angen llety i alluogi gweithwyr fferm neu goedwigaeth i fyw yn eu gweithle, neu'n agos ato. Bydd barnu a yw hyn yn hanfodol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar anghenion y fenter fferm neu goedwigaeth o dan sylw yn hytrach nag ar ddewis nac amgylchiadau personol unrhyw un o'r unigolion dan sylw ”.

2.4 Datgan paragraff 41:-

“Dim ond i gefnogi gweithgareddau amaethyddol sydd eisoes yn bodoli ar unedau amaethyddol sydd wedi'u hen sefydlu y dylid caniatáu anheddau parhaol newydd, ar yr amod;

- (a) bod yna angen swyddogaethol sefydledig sydd *eisoes* yn bodoli;
- (b) bod yr angen yn gysylltiedig â gweithiwr *llawn amser*, neu un sy'n cael ei gyflogi'n bennaf mewn amaethyddiaeth, ac nad yw'n gysylltiedig â gofyniad rhan amser;
- (c) bod yr uned a'r gweithgarwch amaethyddol o dan sylw wedi'u sefydlu ers man lleiaf tair blynedd, wedi bod yn broffidiol am man lleiaf un ohonynt, yn gadarn yn ariannol ar hyn o bryd ac â rhagolygon clir o barhau felly;
- (d) na ellid cyflawni'r angen swyddogaethol drwy gyfrwng annedd arall sydd eisoes ar yr uned, nac unrhyw lety arall yn yr ardal sy'n addas ac ar gael i'w feddiannu gan y gweithwyr o dan sylw; a
- (e) bod y gofynion cynllunio adferol eraill, er enghraifft, ynghylch safle a mynediad, yn cael eu bodloni.”

2.5 Datgan paragraff 42:-

“Bydd *prawf swyddogaethol* yn angenrheidiol i sefydlu a yw'n hanfodol bod un neu ragor o weithwyr ar gael yn hawdd y rhan fwyaf o'r amser er mwyn i'r fenter weithio'n iawn. Gall gofyniad o'r fath godi, er enghraifft, os oes angen i weithwyr for wrth law ddydd a nos:

- rhag ofn bod angen gofal hanfodol ar fyr rybudd ar anifeiliaid neu brosesau amaethyddol;
- i ddelio'n gyflym ag argyfyngau a allai fel arall arwain at achosion difrifol o golli cnydau neu gynhyrchion, er enghraifft yn sgil barrug neu fethiant systemau awtomatig”.

2.6 Datgan polisi A6 Cynllun Fframwaith Gwynedd:-

“Ni chaniateir anheddau newydd yng nghefn gwlad agored ond o dan amgylchiadau eithriadol, yn arbennig lle bydd annedd yn hanfodol er mwyn cartrefu gweithiwr fferm neu goedwigaeth sy'n gorfod byw yn y fan a'r lle yn hytrach nag mewn pentref cyfagos”.

2.7 Datgan Polisi 4FF Cynllun Lleol Arfon Wledig:-

“Ni chaniateir anheddau newydd tu allan i ffiniau'r pentrefi a ddangosir ar y map cynigion oni ellir dangos hyd fodd yr awdurdod cynllunio lleol bod yr annedd yn angenrheidiol er mwyn cartrefu gweithiwr amaethyddol neu weithiwr coedwigaeth llawn amser sy'n gorfod byw yn y fan dan sylw yn hytrach na byw mewn cymuned gyfagos. Yn ychwanegol rhaid i'r cynigion gydymffurfio â phob un o'r meini prawf isod:

- (i) Nad oes dan ofal yr ymgeisydd ddim adeiladau segur eraill a fyddai'n gymwys i'w haddasu er mwyn darparu'r annedd angenrheidiol;

- (ii) Na fydd yr annedd wedi ei leoli mewn man lle byddai adeilad newydd neu weithgareddau preswyl fyddai'n gysylltiedig â'i deiliadaeth yn tynnu oddi wrth fwynderau gweledol neu fwynderau eraill;
- (iii) Rhaid i bob annedd newydd a ganiateir o dan y polisi hwn gael ei leoli hyd y bo'n ymarferol bosibl wrth ymyl neu y tu mewn i adeiladau a godwyd eisoes, a chael ei leoli mewn man a fydd yn manteisio ar nodweddion naturiol y diwedd er sicrhau y caiff gyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar y dirwedd.
- (iv) Bod y cynnig yn cydsynio â'r polisïau perthnasol eraill yn y cynllun yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â dyluniad a lleoliad."

2.8 Datgan polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2009):

"Gwrthodir cynigion i adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad os na ellir cydymffurfio â'r holl feini prawf canlynol:

1. bod angen y tŷ i gartrefu:
  - (a) gweithiwr llawn amser neu un sy'n cael ei gyflogi'n bennaf mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth neu ddiwydiant gwledig arall sy'n seiliedig ar ddefnyddio'r tir, neu
  - (b) rhywun sy'n ennill ei fywoliaeth trwy weithgaredd llawn amser sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i'r sector amaethyddol neu goedwigaeth o fewn y sir.
2. bod y sawl sydd angen y tŷ'n gorfod byw ar y safle a bod y tŷ'n angenrheidiol i reoli a rhedeg gweithgareddau presennol yr uned neu fenter amaethyddol neu goedwigaeth, neu yn achos 1b) bod natur y busnes yn golygu ei bod yn angenrheidiol byw ar safle o'r fath.
3. bod y busnes yn un sydd wedi ei hen sefydlu.
4. nad oes tŷ presennol ar yr uned, neu'n agos y gellid ei ddefnyddio, neu adeiladau addas gerllaw y gellid eu haddasu'n dŷ.
5. yn achos 1a) bod y safle mewn lleoliad addas i ddiwallu'r angen gweithredol a enwir a'i fod yn priodi'n dda â'r adeiladau presennol ar yr uned ac yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio ac, achos 1a) ac 1b), bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod y lleoliad yn addas a bod y cyfiawnhad dros y lleoliad yn dderbyniol.
6. bod y math o dŷ sy'n cael ei gynnig a'i faint yn gyson â'r hyn mae'r busnes neu'r fenter bresennol ei angen ac y gellir ei gynnal.
7. bod trefniadau boddhaol ar gael i gyfyngu meddiannaeth y tŷ i rai sy'n ennill eu bywoliaeth yn llawn amser neu sy'n cael eu cyflogi'n bennaf o 1a) neu 1b)."

### 3. ASESIAID O'R BWRIAD

- 3.1 Nid yw'r profion swyddogaethol nac ariannol wedi'u bodloni o ran y cyfiawnhad am y tŷ annedd hwn.
- 3.2 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno manylion ariannol sy'n ymwneud â'i fusnes contractio, fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys unrhyw fanylion ynghylch faint o'r gwaith hwn sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, ac mae'n ymddangos fod y cyfiawnhad dros y tŷ annedd yn yr achos hwn yn seiliedig ar ddiogelwch yn unig.
- 3.3 Ni ellir ystyried bod rheswm o'r fath yn ddigon o gyfiawnhad dros ganiatáu tŷ annedd newydd yng nghefn gwlad.

- 3.4 Yn ogystal, nid oes caniatâd cynllunio'n bodoli er defnyddio'r tir na'r adeiladau fel iard i gontractwr ac felly, mae defnyddio'r tir i'r dibenion hyn yn anawdurdodedig ar hyn o bryd.
- 3.5 Hefyd, hyd yn oed petai unrhyw gyfiawnhad yn bodoli, mae'r safle dan sylw mewn safle agored uchel a byddai'n nodwedd hynod ymwithiol yn y tirlun.

### 3. CASGLIADAU

- 3.1 O ganlyniad i'r asesiad o'r bwriad hwn, ystyrir fod caniatáu tŷ annedd newydd ar dir agored yn groes i bolisiâu cenedlaethol a lleol yn y cyswllt hwn.
- 3.2 Datgan Adran 38(b) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn glir:-  
  
*“If regard is to be had for the development plans for the purpose of any determination to be made under the Planning Acts the determination must be made in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise”.*
- 3.3 O ystyried nad oes ystyriaethau cynllunio perthnasol wedi'u cyflwyno sy'n profi i'r gwrthwyneb yn yr achos hwn, rwyf o'r farn bod fy argymhelliad gwreiddiol yn gwbl gyfiawn.

### 4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 O ystyried yr adroddiad uchod, argymhellaf y dylid gwrthod y bwriad ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor sydd wedi'i gynnwys yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6, Polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008, Polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a Pholisi 4FF Cynllun Lleol Arfon Wledig.

### 5. PAPURAU CEFNDIR

- 5.1 Ffeil Cais Cynllunio C08A/0617/15/AM
- 5.2 Ffeil Cais Cynllunio C01A/0727/15/YA
- 5.3 Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 – Tai.
- 5.4 Cynllun Lleol Arfon Wledig.
- 5.5 Cynllun Fframwaith Gwynedd.
- 5.6 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig 2009).
- 5.7 Rhaglen a chofnodion Pwyllgor Cynllunio Ardal Arfon (drafftiwyd 4 Mawrth 2009).

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (7) C09A/0068/14/R3  
Estyniadau cefn  
3-5 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (8) C09A/0069/14/R3  
Estyniad cefn  
25 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (9) C09A/0070/14/R3  
Estyniad ochr  
4 Cil Coed, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (10) C09A/0071/14/R3  
Estyniad ochr  
84 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (11) C09A/0072/14/R3  
Estyniad cefn  
26 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (12) C09A/0073/14/R3  
Estyniadau cefn  
7-9 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon

**PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

- (13) C08A/0617/15/AM  
Cais amlinellol i godi tŷ unllawr  
Llain o dir yn Groeslon, Glyn Rhonwy, Llanberis, Caernarfon

Adroddodd Rheolwr Cynllunio Arfon fod llythyrau gan yr ymgeisydd a'i asiant yn gynwysedig yn y pecyn gwybodaeth ychwanegol.

Nododd yr aelod lleol, tra'n derbyn bod safle'r cais y tu allan i'r ffin ac yn groes i bolisi, ei fod hefyd yn derbyn dadleuon yr ymgeisydd a'i asiant dros leoli tŷ unllawr ar y safle hwn. Eglurodd fod yna fynedfa i'r safle oddi ar Ffordd Clegir, sy'n arwain o Lanberis i Gwm-y-Glo, yn ogystal ag oddi ar y trac preifat sy'n arwain o briffordd yr A4086, a bod llawer o'r difrod a'r lladrata o'r safle yn digwydd o'r lôn honno. Ychwanegodd fod cynlluniau a luniwyd ar gyfer datblygu safle Glyn Rhonwy, sy'n ffinio â safle'r cais hwn, yn cynnwys unedau diwydiannol, maes carafannau o bosib', canolfan agored hamdden o bosib' ynghyd ag, efallai, tai.

Mynegodd aelod arall gefnogaeth i'r cais ar y sail bod gan yr ymgeisydd fusnes llwyddiannus iawn, ei fod wedi gweddnewid y safle diffaith hwn a'i fod yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i amaethyddiaeth. Ategwyd y sylwadau hyn gan aelodau eraill a nododd yn ogystal na fyddai'r datblygiad yn amharu ar neb, y dylid ymdrin yn sensitif â'r math yma o gais yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac y dylid cefnogi'r unigolyn lleol hwn sy'n weithiwr allweddol. Yna holwyd sut y gallai'r Cyngor ddatblygu maes carafanau a thai ar safle Glyn Rhonwy os na allai'r unigolyn hwn adeiladu un tŷ yno? Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio fod safle Glyn Rhonwy wedi ei adnabod gan y Cyngor fel safle i'w ddatblygu a'i fod, gan hynny, yn disgyn oddi mewn i'r polisïau. I'r gwrthwyneb, 'roedd safle'r cais yn glir y tu allan i'r polisïau. Ychwanegodd fod sôn yn y cynllun am y posibilrwydd o adeiladu tai ar y rhan o'r safle sydd agosaf at Lanberis ei hun, ac nid ar y rhan sydd agosaf at safle'r cais hwn. Nododd hefyd, er yn cydnabod yr angen i edrych yn sensitif ar geisiadau o'r math yma yn yr hinsawdd economaidd bresennol, nad oedd hynny'n esgusodi mynd yn groes i bolisi.

Nododd aelod arall ei bod yn cytuno ag argymhelliad y swyddogion i wrthod y cais ar y sail ei fod yn gwbl groes i bolisi. Nododd, er bod ganddi gydymdeimlad â'r ymgeisydd yn yr achos hwn, mai dyletswydd y pwyllgor oedd diogelu cefn gwlad ar gyfer y cenedlaethau i ddod a phe cymeradwyid pob cais o'r math yma, ni fyddai yna gefn gwlad ar ôl. Nododd aelod arall nad oedd yn poeni am godi ambell dŷ yma ac acw yng nghefn gwlad ac mai'r peth pwysicaf oedd cadw teuluoedd o fewn eu cynefin.

Nododd aelod arall, er bod y cais yn llwyr y tu allan i'r polisïau ar y funud, y gobeithid y byddai modd caniatáu'r math yma o ddatblygiad yn y dyfodol gyda dyfodiad canllawiau newydd.

#### **PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau.**

O ganlyniad i'r penderfyniad uchod, galwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio Canolog.

Ni fu i'r Cynghorwyr Keith Greenly-Jones, Huw Price Hughes, Dyfrig Jones, Dewi Llewelyn, June Marshall na Gwilym O. Williams gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater gan eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio Canolog.

#### **(14) C08A/0007/18/LL**

Ymestyn cartref nyrsio presennol drwy greu estyniad 2-3 llawr, dymchwel y gegin bresennol, creu rhodfa a manau parcio ychwanegol ynghyd â thirweddu a gwaith draenio

Cartref Nyrsio Penisarwaun, Penisarwaun, Caernarfon

Atgoffodd Rheolwr Cynllunio Arfon yr aelodau i'r pwyllgor hwn roi hawl i weithredu ym Medi 2008 i gymeradwyo'r cais hwn yn sgil derbyn cadarnhad gan y datblygwr ynglŷn â'r trefniadau carthffosiaeth a'r posibilrwydd o wneud cyfraniad ariannol tuag at gost cynllun i wella'r ffordd. Eglurodd y cadarnhawyd y trefniadau carthffosiaeth erbyn hyn ond nad oedd y datblygwr yn fodlon cytuno â'r cais i ddarparu cyfraniad ariannol i wella'r ffordd. Ychwanegodd fod llythyr gan asiant yr ymgeisydd yn ymhelaethu ar y rhesymau dros hyn yn gynwysedig yn y pecyn gwybodaeth ychwanegol. Yna atgoffodd yr aelodau y caniatawyd cais blaenorol i ymestyn y cartref nyrsio ym Mehefin 2006 ac eglurodd y gallai'r datblygwr weithredu'r caniatâd hwnnw heb wneud unrhyw gyfraniad ariannol.

chytunir amodau caeth i osgoi hyn. Yn ogystal, mae'r bwriad yn groes i bolisi E18 (CLLD) a B18 (CDUG) oherwydd bod pryder y gallai lleoliad y tŷ arwain at golli coed aeddfed gyda niwed sylweddol i fwynderau gweledol yr ardal. Argymhellodd wrthod y cais.

ll) Y dylid ystyried pob cais o'r fath yn gaeth unol â'r cyfarwyddyd tai fforddiadwy a'r polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol er sicrhau y byddai'r tai hyn ar gael yn fforddiadwy i'r dyfodol ac na fyddai caniatáu ceisiadau am dai a fyddai gyda phris uwch oherwydd eu lleoliad a'u cost adeiladu yn arwain at gais llwyddiannus i ddileu ymrwymadau fforddiadwy o'r fath ar sail bod pris yr eiddo fel canran o'r pris marchnad agored tu allan i gyrraedd personau lleol.

m) Y derbyniwyd nifer o lythyrau'n gwrthwynebu'r cais.

Datganodd yr aelod lleol gefnogaeth i'r cais gan dynnu sylw nad oes lleiniau eraill yn y pentref yn addas ar gyfer eu datblygu gan eu bod tu allan i'r ffin datblygu. Yn ogystal nid oes tai addas ar gyfer ei anghenion ar gael ar y farchnad agored yn yr ardal. Mewn perthynas â'r ystyriaethau polisi, 'roedd o'r farn bod y cais yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r meini prawf o fewn y polisiau perthnasol yng Nghynllun Lleol Dwyfor a Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Drafft Adneuo).

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi B12 Cynllun Lleol Dwyfor a pholisi CH6 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Drafft Adneuo) (dim tystiolaeth pendant a chyfredol nad oes tir mwy addas ar gael o fewn neu ger y ffin datblygu i adeiladu tŷ fforddiadwy ynghyd â dim gwir angen lleol gwirioneddol am y tŷ fel nad yw'r cais yn amgylchiad eithriadol am dŷ fforddiadwy); croes i bolisi C9 CLLD a pholisi B22 CDUG (lleoliad y tŷ newydd yn debygol o amharu ar fwynderau trigolion cyfagos oherwydd goredrych a cholli preifatrwydd a defnydd o'r ffordd fynedfa gyfochrog ac nid yw'r cynllun ail-leoli diweddaraf yn ddigonol i leddfu'r pryderon hyn); croes i bolisi E18 CLLD a B18 CDUG (pryder y gallai lleoliad y tŷ arwain at golli coed aeddfed gyda niwed sylweddol i fwynderau gweledol yr ardal); pryder y gallai caniatáu'r cais ym mhen draw y cae a chryn bellter o'r fynedfa i'r ffordd ystad greu cysail ar gyfer datblygiadau cyffelyb ar y tir amlwg hwn ar draul mwynderau gweledol yr ardal a mwynderau trigolion cyfagos.**

**b) Cais rhif C08A/0617/15/AM – llain o dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis  
Cais amlinellol i adeiladu tŷ unllawr**

Adroddwyd gan Reolwr Cynllunio Arfon:-

a) Ar fanylion y cais, sef cais amlinellol i adeiladu tŷ newydd ar dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis.

b) Y cyflwynwyd y cais i Bwyllgor Cynllunio Ardal Arfon ar 4 Mawrth 2009 gydag argymhelliad i'w wrthod ar sail polisi gan y byddai'r bwriad yn arwain at dŷ newydd yng nghefn gwlad agored heb unrhyw gyfiawnhad amaethyddol.

c) Y penderfynodd y Pwyllgor Ardal ganiataw'r cais gydag amodau yn groes i'r argymhelliad.

ch) Y datgan paragraff 9.3.6 Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 "y dylid arfer rheolaeth lem tros adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau sefydledig. Nid yw'r ffaith na fyddai un tŷ ar y safle penodol yn oramlwg yn ddadl ynddi ei hun tros roddi caniatâd; gellid ailadrodd hynny'n rhy aml, er niwed cyffredinol i gymeriad yr ardal.". Y datgan paragraff 9.3.7 o'r un datganiad polisi "y dylid ystyried y canlynol, yn benodol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio am anheddau amaethyddol a choedwigaeth –

i) Prawf swyddogaethol i ddarganfod a oes angen, er mwyn i'r busnes weithredu'n briodol, o ran gofynion cyfredol y busnes a'i ofynion tebygol yn y dyfodol, i un neu ragor o weithwyr fod ar gael wrth law bron bob amser.

ii) Prawf ariannol i ddangos bod y busnes ffermio yn hyfyw'n economaidd, oherwydd os nad yw, ni ellir cyfiawnhau llety parhaol newydd ar sail amaethyddol, ac i roddi tystiolaeth am faint yr anedd fyddai'n briodol i'r uned".

d) Y datgan paragraff 40 Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 6 (Cymru) – Datblygiad Amaethyddol a Gwledig "un o'r amgylchiadau prin lle gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl anghysbell yng nghefn gwlad yw pan fo angen llety i alluogi gweithwyr fferm neu

goedwigaeth i fyw yn eu gweithle, neu'n agos ato. Bydd barnu a yw hyn yn hanfodol mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar anghenion y fenter fferm neu goedwigaeth dan sylw yn hytrach nag ar ddewis neu amgylchiadau personol unrhyw un o'r unigolion dan sylw". Y datgan paragraff 41 o'r un polisi "dim ond i gefnogi gweithgareddau amaethyddol sydd eisoes yn bodoli ar unedau amaethyddol sydd wedi eu hen sefydlu y dylid caniatáu anheddau parhaol newydd gyda'r amodau perthnasol". Yn ogystal datgan paragraff 42 o'r un polisi "y bydd prawf swyddogaethol yn angenrheidiol i sefydlu a yw'n hanfodol bod un neu rhagor o weithwyr ar gael yn hawdd y rhan fwyaf o'r amser er mwyn i'r fenter weithio'n iawn. Gallai gofyniad o'r fath godi, er enghraifft, os oes angen i weithwyr fod wrth law ddydd a nos rhag ofn bod angen gofal hanfodol ar fyr rybudd ar anifeiliaid neu brosesau amaethyddol neu i ddelio'n gyflym gydag argyfyngau a allai fel arall arwain at achosion difrifol o golli cynydau neu gynhyrchion, er enghraifft yn sgîl barrug neu fethiant systemau awtomatig".

dd) Y datgan polisi A6 Cynllun Fframwaith Gwynedd "ni chaniateir anheddau newydd yng nghefn gwlad agored ond o dan amgylchiadau eithriadol, yn arbennig lle byddai annedd yn hanfodol er mwyn cartrefu gweithiwr fferm neu goedwigaeth sy'n gorfod byw yn y fan a'r lle yn hytrach na mewn pentref cyfagos".

e) Y datgan polisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig "ni chaniateir anheddau newydd tu allan i ffiniau'r pentrefi a ddangosir ar y map cynigion oni ellir dangos hyd fodd yr awdurdod cynllunio lleol bod yr annedd yn angenrheidiol er mwyn cartrefu gweithiwr amaethyddol neu weithiwr coedwigaeth llawn amser sy'n gorfod byw yn y man dan sylw yn hytrach na byw mewn cymuned gyfagos. Yn ychwanegol, rhaid i'r cynigion gydymffurfio gyda phob un o'r meini prawf perthnasol".

f) Y datgan polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2009) "y gwrthodir cynigion i adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad os na ellir cydymffurfio â'r holl feini prawf perthnasol".

ff) Nad yw'r profion swyddogaethol nac ariannol wedi eu bodloni o ran y cyfiawnhad am y tŷ annedd hwn. Cyflwynodd yr ymgeisydd fanylion ariannol sy'n ymwneud â'i fusnes contractio, ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw fanylion parthed faint o'r gwaith hwn sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, ac fe ymddengys bod y cyfiawnhad tros y tŷ annedd yn yr achos hwn yn seiliedig ar ddiogelwch yn unig. Ni ellir ystyried bod rheswm o'r fath yn ddigon o gyfiawnhad tros ganiatau tŷ annedd newydd yng nghefn gwlad. Yn ogystal, nid oes caniatâd cynllunio'n bodoli er defnyddio'r tir na'r adeiladau fel iard i gontractwr, ac felly, mae defnyddio'r tir i'r dibenion hynny yn anawdurdodedig ar hyn o bryd. Hefyd, hyd yn oed petai unrhyw gyfiawnhad yn bodoli, mae'r safle dan sylw mewn man agored uchel a byddai'n nodwedd hynod ymwithiol yn y tirlun. O ganlyniad i'r asesiad o'r bwriad hwn, 'roedd o'r farn bod caniatâu tŷ annedd newydd ar dir agored yn groes i bolisiau cenedlaethol a lleol yn y cyswllt hwn. Argymhellodd wrthod y cais.

Datganwyd anfodlonrwydd gan yr aelod lleol na chyfeiriwyd yn y Pwyllgor Ardal, pan drafodwyd y cais hwn, at y ffaith y defnyddir y tir a'r adeiladau fel iard i gontractwr heb ganiatâd cynllunio. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Cynllunio nad oedd y wybodaeth honno i law yr adeg hynny.

Nododd yr aelod lleol ymhellach, tra'n derbyn bod safle'r cais tu allan i'r ffin ac yn groes i bolisi, ei fod hefyd yn derbyn dadleuon yr ymgeisydd a'i asiant tros leoli tŷ unllawr ar y safle hwn. 'Roedd yr ymgeisydd yn berson lleol ac yn cyflogi gweithwyr lleol. Eglurodd bod yna fynedfa i'r safle oddi ar Ffordd Clegir, sy'n arwain o Llanberis i Cwm y Glo, yn ogystal ag oddi ar y trac preifat ar arweiniau o briffordd yr A4086, a bod llawer o'r difrod a'r lladrata o'r safle yn digwydd o'r ffordd honno. Ychwanegodd bod cynlluniau a luniwyd ar gyfer datblygu safle Glyn Rhonwy, sy'n ffinio â safle'r cais hwn, yn cynnwys unedau diwydiannol, maes carafanau o bosibl, canolfan agored hamdden ynghyd ag efallai, tai. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth bod safle Glyn Rhonwy wedi ei adnabod gan y Cyngor fel safle i'w ddatblygu a'i fod, gan hynny, yn disgyn o fewn y polisiau. Fodd bynnag, 'roedd safle'r cais yn glir tu allan i'r polisiau. Cyfeiriodd hefyd bod sôn yn y cynllun am y posibilrwydd o adeiladu tai ar y rhan o'r safle sydd agosaf at Llanberis ei hun, ac nid ar y rhan sydd agosaf at safle'r cais hwn.

**PENDERFYNWYD** gwrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6; polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008; polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a pholisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 12.30pm

The Arfon Planning Manager reported that a letter of objection was included in the additional information pack.

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (6) C09A/0067/14/R3  
Rear extensions  
9 Caer Saint / 10 Ffordd Maes Barcer / 12 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (7) C09A/0068/14/R3  
Rear extensions  
3-5 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (8) C09A/0069/14/R3  
Rear extension  
25 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (9) C09A/0070/14/R3  
Side extension  
4 Cil Coed, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (10) C09A/0071/14/R3  
Side extension  
84 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (11) C09A/0072/14/R3  
Rear extension  
26 Ffordd Maes Barcer, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (12) C09A/0073/14/R3  
Rear extensions  
7-9 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon

**RESOLVED to approve with conditions.**

- (13) C08A/0617/15/AM  
Outline application for the erection of a single-storey dwelling  
Land at Groeslon, Glyn Rhonwy, Llanberis, Caernarfon

The Arfon Planning Manager reported that letters from the applicant and his agent were included in the additional information pack.

The local member noted, whilst accepting that the application site was outside the boundary and contrary to policy, he also noted that he accepted the arguments of the applicant and his agent for locating a single-storey dwelling on this site. He explained that there was an access to the site from Ffordd Clegir, which led from Llanberis to Cwm-y-Glo, as well as from the private track that led from the A4086 highway, and that a lot of damage and burglary took place at the site from that road. He added that the plans drawn up for developing the Glyn Rhonwy site, which adjoined this application site, included industrial units, possibly a caravan park, possibly an outdoor leisure centre, and there was a possibility that housing would be included also.

Another member expressed support to the application on the grounds that the applicant had a very successful business, as he had transformed this derelict site and as he made a very important contribution to agriculture. These observations were endorsed by other members and he also noted that the development would not disturb anybody, that this type of application should be dealt with sensitively in the current economic climate and that this local individual, who was a key worker, should be supported. It was then asked how the Council could develop a caravan park and housing on the Glyn Rhonwy site unless this individual could build one house there? In response, the Head of Planning Service explained that a site such as Glyn Rhonwy had been identified by the Council as a site for development and consequently, it fell within the policies. On the contrary, the application site was clearly outside the area of the policies. He added that there was reference within the plan of the possibility of building houses on the part of the site that was closest to Llanberis itself, and not on the part that was closest to this application site. He also noted, although he acknowledged the need to sensitively consider these types of applications in the current economic climate, that this was not an excuse for acting contrary to policy.

Another member noted that she agreed with the officers' recommendation to refuse the application on the grounds that it was completely contrary to policy. She noted, despite the fact that she sympathised with the applicant in this case, that it was the Council's duty to safeguard the countryside for future generations and should every application of this type be approved, there would be no countryside left. Another member noted that he was not concerned about constructing a few houses here and there in the countryside and that the most important thing was to keep families within their home areas.

Another member noted, despite the fact that the application was completely outside the policies at the moment, that it was hoped that this type of application could be approved in the future with the arrival of new guidelines.

**RESOLVED to approve with conditions.**

As a result of the above-mentioned resolution, the application was called to the Central Planning Committee.

Councillors Keith Greenly-Jones, Huw Price Hughes, Dyfrig Jones, Dewi Llewelyn, June Marshall and Gwilym O. Williams did not participate in the discussion or vote on this issue as they were members of the Central Planning Committee.

(14) C08A/0007/18/LL

other similar houses on the remainder of the land. The need to create a long access road would also have made it unsuitable as affordable housing provision because it would be difficult to ensure the affordability of the house in the short term and long term. In addition, the original applicant no longer required an affordable house on the site and no evidence had been submitted with the application of a general need for affordable housing in the village.

